Cyngor Abertawe
Swansea Council

**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Y Cabinet

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 14 Chwefror 2019 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| M C Child | E J King | A S Lewis |
| C E Lloyd | J A Raynor | M Thomas |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): J E Burtonshaw, R Francis-Davies a/ac D H Hopkins

**Hefyd yn Bresennol:** Y Cynghorwyr C Anderson, P M Black, W Evans, T J Hennegan, C A Holley, P Lloyd & M Sherwood

---

## 141. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y cysylltiadau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorydd E J King gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 148 “Cynllunio Ariannol Tymor Canolig 2020/21 - 2022/23” a 149 “Cyllideb Refeniw 2019-2020” a dywedodd ei fod wedi derbyn goddefeb gan y Pwyllgor Safonau i Aros, Siarad (ond nid mewn perthynas â chyflogaeth ei ŵr) ond nid Pleidleisio wrth ystyried cyllideb yr awdurdod.

## 142. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2019.

## 143. Adroddiad(au) Arweinydd y Cyngor.

### 1) Gweddarlledu Cyfarfod y Cyngor

Dywedodd Arweinydd y Cyngor, fel rhan o'r gwaith cyfredol i fynd ati i weddarlledu cyfarfodydd y cyngor, y Cabinet, y Pwyllgor Cynllunio a Phwyllgor y Rhaglen Graffu, fod y cyfarfod yn cael ei recordio at ddibenion gweddarlledu. Ni fydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw am ein bod yn dal yn y cyfnod profi; fodd bynnag, caiff ei recordio. Os bydd y prawf yn llwyddiannus, caiff y cyfarfod ei gyhoeddi ar-lein yn ddiweddarach fel podlediad.

**144. Cwestiynau gan y cyhoedd.**

Gofynnwyd nifer o gwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd mewn perthynas â'r gyllideb. Ymatebodd Aelod perthnasol y Cabinet yn briodol. Nid oedd angen ymateb ysgrifenedig ar unrhyw gwestiynau.

**145. Hawl i holi cynghorwyr.**

Gofynnwyd nifer o gwestiynau gan gynghorwyr ynghylch y gyllideb. Ymatebodd Aelod perthnasol y Cabinet yn briodol. Nid oedd angen ymateb ysgrifenedig ar unrhyw gwestiynau.

**146. Adborth ar graffu cyn penderfynu ar y gyllideb flynyddol. (llafar)**

Cyflwynodd y Cyng. C A Holley yr adborth craffu cyn penderfynu.

**147. Monitro Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf - Chwarter 3ydd 2018/19.**

***Gweithdrefn Galw i Mewn - Testun Craffu cyn Penderfynu:*** *Mae'r penderfyniad hwn yn rhydd o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod "y penderfyniad wedi bod yn destun Craffu Cyn Penderfynu ac ni fu unrhyw newid pwysig i wybodaeth/dystiolaeth berthnasol".*

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Busnes a Pherfformiad adroddiad a oedd yn amlinellu monitro ariannol cyllidebau refeniw a chyfalaf 2018/2019, gan gynnwys cyflwyno arbedion cyllidebol.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi'r sylwadau a'r amrywiadau yn yr adroddiad a'r camau gweithredu sydd ar y gweill er mwyn mynd i'r afael â'r rhain.

**148. Cynllunio Ariannol Tymor Canolig 2020/21 - 2022/23.**

***Gweithdrefn Galw i Mewn - Testun Craffu cyn Penderfynu:*** *Mae'r penderfyniad hwn yn rhydd o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod "y penderfyniad wedi bod yn destun Craffu Cyn Penderfynu ac ni fu unrhyw newid pwysig i wybodaeth/dystiolaeth berthnasol".*

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn nodi rhesymeg a diben y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, a manylodd ar y tybiaethau ariannu mawr ar gyfer y cyfnod, gan gynnig strategaeth i gynnal cyllideb gytbwys.

**Penderfynwyd:**

1) Argymell Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2020-2021 hyd at 2022-2023 i'r cyngor fel sail ar gyfer cynllunio ariannol y gwasanaethau yn y dyfodol.

**149. Cyllideb Refeniw 2019/20.**

***Gweithdrefn Galw i Mewn - Testun Craffu cyn Penderfynu:*** *Mae'r penderfyniad hwn yn rhydd o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod "y penderfyniad wedi bod yn destun Craffu Cyn Penderfynu ac ni fu unrhyw newid pwysig i wybodaeth/dystiolaeth berthnasol".*

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn nodi'r sefyllfa bresennol o ran y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2019-2020. Roedd yn manylu ar y canlynol:

- Monitro ariannol 2018-2019;
- Setliad cyllid llywodraeth leol 2019-2020;
- Rhagolwg cyllidebol 2019-2020;
- Cynigion arbed penodol;
- Canlyniad yr ymgynghoriad ar y gyllideb;
- Goblygiadau staffio;
- Gofynion y cronfeydd wrth gefn;
- Gofyniad y gyllideb a Threth y Cyngor 2019-2020;
- Crynodeb o gynigion ariannu;
- Risgiau ac ansicrwydd.

Cynigiodd Arweinydd y Cyngor, Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Busnes a Pherfformiad ac Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd y diwygiadau canlynol.

| | £ | £ |
|---|---|---|
| **Newidiadau pellach i gynigion o ganlyniad i ymatebion i'r ymgynghoriad** | | |
| Tynnu'n ôl - Gwasanaeth Cymunedol y Llyfrgell | 67,000 | |
| Tynnu'n ôl - Ffïoedd Proffesiynol | 49,000 | |
| Tynnu'n ôl - Codi tâl am feysydd parcio am ddim | 23,000 | |
| | 139,000 | |
| **Ariennir fel a ganlyn:** | | |
| Lleihau Praesept Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru | -60,000 | |
| Lleihau'r gronfa wrth gefn £79,000 i £7.072M | | 79,000 |

**Penderfynwyd:**

1) Nodi canlyniad yr ymarfer ymgynghori ffurfiol a chytuno ar unrhyw newidiadau i'r cynigion cyllidebol yn Atodiad D yr adroddiad fel y'u diwygiwyd uchod, ynghyd â'r sefyllfa o ran cyllidebau dirprwyedig fel a nodwyd yn Adran 4.10 a 4.11 yr adroddiad;

2) Nodi'r bwlch presennol mewn adnoddau a grybwyllwyd yn Adran 4.5 yr adroddiad ac, yn unol â'r camau gweithredu posib a nodwyd yn Adrannau 9 a 10 yr adroddiad, gytuno ar gamau gweithredu i gyflawni Cyllideb Refeniw gytbwys ar gyfer 2019-2020;

3) Yn ogystal ag adolygiad o gynigion arbed presennol, bydd angen i'r Cabinet:

   a) Adolygu a chymeradwyo'r trosglwyddiadau wrth gefn a argymhellir yn yr adroddiad hwn;

   b) Cytuno ar lefel treth y cyngor ar gyfer 2019/2020 i'w hargymell i'r cyngor.

4) Yn amodol ar y newidiadau a nodwyd ac a restrwyd uchod, mae'r Cabinet yn argymell y canlynol i'r cyngor i'w cymeradwyo:

   a) Cyllideb Refeniw ar gyfer 2019-2020;

   b) Gofyniad y gyllideb ac ardoll Treth y Cyngor ar gyfer 2019-2020.

## 150. Cyfrif Refeniw Tai (CRT) - Cyllideb Refeniw 2019/20.

***Gweithdrefn Galw i Mewn - Testun Craffu cyn Penderfynu:*** *Mae'r penderfyniad hwn yn rhydd o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod "y penderfyniad wedi bod yn destun Craffu Cyn Penderfynu ac ni fu unrhyw newid pwysig i wybodaeth/dystiolaeth berthnasol".*

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn cynnig Cyllideb Refeniw ar gyfer 2019-2020 a chynnydd rhent i eiddo o fewn y Cyfrif Refeniw Tai (CRT).

**Penderfynwyd** argymell y cynigion cyllidebol canlynol i'r cyngor i'w cymeradwyo:

1) Cynyddu rhenti'n unol â pholisi rhent dros dro Llywodraeth Cymru fel a fanylwyd yn Adran 3 yr adroddiad;

2) Cymeradwyo ffïoedd, taliadau a lwfansau fel a amlinellir yn Adran 3 yr adroddiad;

3) Cynigion y gyllideb refeniw fel a nodwyd yn Adran 3 yr adroddiad.

## 151. Cyfrif Refeniw Tai (CRT) - cyllideb a rhaglen gyfalaf 2019/20-2022/23.

***Gweithdrefn Galw i Mewn - Testun Craffu cyn Penderfynu:*** *Mae'r penderfyniad hwn yn rhydd o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod "y penderfyniad wedi bod yn destun Craffu Cyn Penderfynu ac ni fu unrhyw newid pwysig i wybodaeth/dystiolaeth berthnasol".*

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn cynnig Cyllideb Gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2018-2019 a Chyllideb Gyfalaf ar gyfer 2019-2020 - 2022-2023.

**Penderfynwyd** argymell y canlynol i'r cyngor i'w cymeradwyo:

1) Cymeradwyo'r trosglwyddiadau rhwng cynlluniau a'r cyllidebau diwygiedig ar gyfer cynlluniau yn 2018-2019;

2) Cymeradwyo cynigion cyllidebol 2019-2020 a 2020-2023;

3) Lle caiff cynlluniau unigol fel y'u dangosir yn Atodiad B yr adroddiad eu rhaglennu dros y cyfnod 4 blynedd a ddisgrifir yn yr adroddiad, caiff y rhain eu dilyn a'u cymeradwyo, a chymeradwyir eu goblygiadau ariannol ar gyfer ariannu dros y blynyddoedd dilynol.

**152. Cyllideb a Rhaglen Gyfalaf 2018/19- 2024/25.**

***Gweithdrefn Galw i Mewn - Testun Craffu cyn Penderfynu:*** *Mae'r penderfyniad hwn yn rhydd o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod "y penderfyniad wedi bod yn destun Craffu Cyn Penderfynu ac ni fu unrhyw newid pwysig i wybodaeth/dystiolaeth berthnasol".*

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn cynnig Cyllideb Gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2018-2019 a Chyllideb Gyfalaf ar gyfer 2019-2020 i 2022-2023 (2023-2025 ar gyfer ysgolion Band B).

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r Gyllideb Gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2018-2019 a Chyllideb Gyfalaf 2019-2020 - 2023-2025 fel a fanylir yn Atodiadau A, B, C, D, E ac F yr adroddiad.

**153. Strategaeth Gyfalaf 2019/20- 2024/25.**

***Gweithdrefn Galw i Mewn - Testun Craffu cyn Penderfynu:*** *Mae'r penderfyniad hwn yn rhydd o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod "y penderfyniad wedi bod yn destun Craffu Cyn Penderfynu ac ni fu unrhyw newid pwysig i wybodaeth/dystiolaeth berthnasol".*

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y Strategaeth Gyfalaf sy'n cyfeirio'r Rhaglen Gyfalaf 4 blynedd.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf.

**154. Premiymau Treth y Cyngor yng Nghymru**

***Gweithdrefn Galw i Mewn - Testun Craffu cyn Penderfynu:*** *Mae'r penderfyniad hwn yn rhydd o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod "y penderfyniad wedi bod yn destun Craffu Cyn Penderfynu ac ni fu unrhyw newid pwysig i wybodaeth/dystiolaeth berthnasol".*

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid (Swyddog Adran 151) adroddiad a oedd yn darparu gwybodaeth ac yn gofyn i aelodau ystyried a ddylid parhau i ganiatáu gostyngiadau Treth y Cyngor 50% ar eiddo gwag a heb eu dodrefnu ar ôl i unrhyw gyfnod eithrio statudol ddod i ben.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi manylion y pwerau disgresiwn sy'n gysylltiedig â phremiymau Treth y Cyngor, gostyngiadau dewisol ar gyfer anheddau gwag a heb eu dodrefnu a'r materion cysylltiedig a amlinellir yn yr adroddiad hwn;

2) Cynnal ymarfer ymgynghori mewn perthynas â'r canlynol:

   i) A ddylid rhoi'r gorau i ganiatáu gostyngiad Trech y Cyngor o 50% ar anheddau sy'n aros yn wag a heb eu dodrefnu wedi i unrhyw gyfnod eithrio statudol ddod i ben.

   ii) A ddylid codi Premiwm Treth y Cyngor o hyd at 100% ar anheddau sydd wedi bod yn wag a heb eu dodrefnu am fwy na 12 mis (eiddo gwag tymor hir);

   iii) A ddylid codi Premiwm Treth y Cyngor o hyd at 100% ar anheddau y mae pobl yn byw ynddynt bob hyn a hyn, y'u gelwir yn gyffredin yn "ail gartrefi".

Daeth y cyfarfod I ben am 11.18 am

**Cadeirydd**

| **Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol** | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | 14 February 2019 |
| Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben<br>(3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi): | - |
| Penderfyniad yn dod i rym: | 14 Chwefror 2019 |